Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Wasanaethau Therapi Ocsigen yn y Cartref: Adroddiad Pwyllgor (3) 02-09 Chwefror 2009

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 3 argymhelliad a wneir yn yr adroddiad.

1 Argymhelliad

Rydym yn cadarnhau argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, sydd i gyd yn ymwneud â materion sy'n peri pryder i ni. **Gofynnwn i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i bob un o'r pedwar argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn.**

Derbyniwn yr Argymhelliad – nodir yr ymatebion i bob un o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol isod.

i O ran y cyfryw gontractau sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gadw'r opsiwn - a, lle y bo'n briodol, arfer yr opsiwn hwnnw - i amrywio'r ffordd y caiff y trefniadau cytundebol newydd eu gweithredu yng Nghymru er mwyn lleddfu'r risgiau cysylltiedig.

Derbyniwn yr Argymhelliad – O ran unrhyw gontractau yn y dyfodol, byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei chynrychioli'n briodol ar y Bwrdd prosiect ac yn penodi arbenigwyr caffael y Cynulliad i ymgymryd â rôl Sicrwydd Ansawdd. Byddwn yn rheoli'r prosiect ac dadansoddi risgiau yn briodol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y trefniadau contractol ar gyfer Cymru yn cael eu hystyried yn briodol a'u teilwra i gydweddu â'n hanghenion a risgiau.

O ran y contract Ocsigen Cartref yn benodol, rydym yn cydnabod bod angen elfen o hyblygrwydd wrth bennu'r trywydd mwyaf derbyniol ar gyfer gweithredu trefniadau contractol newydd pan ail-gystadleuir ar gyfer y contract i ddarparu gwasanaethau Therapi Ocsigen yn y Cartref.

Mae'r contract presennol ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn eisoes wedi'i ail-dendro a'i ddyfarnu yn Ne-orllewin Lloegr, a chafodd ei deilwra i fodloni gofynion penodol y rhanbarth honno. Roedd hyn yn golygu cydweithio'n agos â'r elfennau o'r gwasanaethau y byddai'r contract yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Roedd manyleb ddiwygiedig y contract yn ddigon hyblyg i gymryd y gofynion hyn i ystyriaeth, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod gennym ddigon o hyblygrwydd i fowldio'r contract i'n gofynion ein hunain ac ymdrin â'r

gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer blaenorol. Daw'r contract ocsigen cyfredol i ben ar 31 Ionawr 2011. Bydd y broses hon yn dechrau yn Chwefror 2010.

ii O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ganiatáu amser ychwanegol rhag ofn na fydd y gwaith paratoadol yn mynd rhagddo fel y disgwylir; yn enwedig pan nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen i weithredu'r trefniadau newydd ar gael yn hawdd.

Derbyniwn yr argymhelliad – Fel a nodir uchod, o ran y cyfryw newidiadau i'r gwasanaethau yn y dyfodol byddwn yn rheoli'r prosiect ac yn dadansoddi'r risgiau yn briodol. Wrth gynllunio, byddwn yn pennu'r amserlen fwyaf priodol ar gyfer rhoi'r newidiadau ar waith gan gymryd i ystyriaeth yr holl risgiau sydd ynghlwm â gweithredu.

iii O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad oruchwylio effeithiolrwydd y modd y mae cyrff iechyd yn cyfathrebu â chleifion ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Dylai hefyd oruchwylio'r broses gyfathrebu effeithiol â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio.

Derbyniwn yr argymhelliad - O ran y cyfryw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, datblygir strategaeth gyfathrebu glir o'r dechrau, yn rhan o'r broses rheoli prosiect. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n briodol â'r rhanddeiliaid allweddol.

iv Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyfeirio BILlau ac ymddiriedolaethau'r GIG at flaenoriaethu datblygiad asesiadau clinigol arbenigol. Dylai hefyd fonitro'n agos y cynnydd a wnaed gan y GIG yng Nghymru wrth ddatblygu'r cyfryw wasanaethau a ph'un a yw'r arian ychwanegol a neilltuwyd i BILlau wedi'I ddefnyddio'n effeithiol.

Derbyniwn yr argymhelliad – Roedd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 063 yn amlygu pwysigrwydd Byrddau Iechyd Lleol o ran comisiynu asesiadau o gleifion. Rydym yn bwriadu atgyfnerthu hyn trwy gyhoeddi Llythyr Gweinidogol a fydd hefyd yn nodi ein gofynion ar gyfer Byrddau Iechydd lleol i ymgymryd ag archwiliad o'r asesiadau cleifion gan ddefnyddio offeryn archwilio a ddatblygur gan randdeiliaid allweddol. Bydd yr offeryn archwilio'n sicrhau ein bod yn monitro cynnydd y GIG o ran sefydlu a datblygu asesiadau o gleifion. Bydd hyn yn ein galluogi i gymryd camau priodol

lle mae'r cynnydd yn annigonol Bydd y Llythyr Gweinidogol yn cael ei ddosbarthu erbyn 1 Ebrill 2009.

2 Argymhelliad

Sylwn fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd costau'r gwasanaethau ocsigen yn y cartref yn gostwng wrth i nifer yr asesiadau clinigol gynyddu. Disgwyliwn i'r GIG lwyddo i sicrhau'r arbedion ariannol hyn ac **rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor hwn ar ddiwedd y flwyddyn hon ac ar ddiwedd y ddwy flynedd sy'n weddill o dan y cytundeb, i ddangos bod yr arbedion hyn yn cael eu gwneud.**

Derbyniwn yr argymhellion – Rydym yn casglu costau'r contract a byddwn yn casglu data am yr asesiadau clinigol a byddwn yn adrodd i'r Pwyllgor, yn unol â'r argymhelliad.

3. Argymhelliad

Roedd y broses o gyflwyno'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau therapi ocsigen yn y cartref yng Nghymru yn un anodd a chostus. Mae'n hanfodol fod Llywodraeth y Cynulliad a GIG Cymru yn dysgu gwersi o'r profiad hwn. Pwysleisir rhai o'r gwersi yn ein hadroddiad. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2009, yn gosod allan y gwersi a ddysgwyd o'r broses o gyflwyno'r contract ar gyfer gwasanaethau therapi ocsigen yn y cartref; a sut y mae'r gwersi hyn yn cael eu cymhwyso i'r newidiadau allweddol eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau i gleifion**.

Derbyniwn yr argymhelliad – Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd Mehefin 2009, yn unol â'r argymhelliad.